## EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rh oliadau)

**1.** Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru yn rhoi ar waith Benderfyniad y Comisiwn 2004/374/ EC sy'n atal dros dro osod ar y farchnad a mewnforio jeli cwpanau bach sy'n cynnwys yr ychwanegion bwyd E400, E401, E402, E403, E404, E405, E406, E407, E407a, E410, E412, E413, E414, E415, E417 ac/neu E418 (OJ Rhif L118, 23.4.2004, t.70).

**2.** Mae'r Rheoliadau hyn—

(a) yn gwahardd

(i) gwneud gweithrediadau masnachol parthed jeli cwpanau bach sy'n cynnwys unrhyw un o'r ychwanegion bwyd E400, E401, E402, E403, E404, E405, E406, E407, E407a, E410, E412, E413, E414, E415, E417 neu E418 ac a fwriedir ar gyfer eu bwyta gan bobl, a

(ii) defnyddio unrhyw ychwanegyn o'r fath wrth weithgynhyrchu unrhyw jeli cwpanau bach a fwriedir ar gyfer eu bwyta gan bobl (*rheoliad 3*);

(b) yn darparu ar gyfer eu gorfodi (*rheoliad 4*);

(c) yn cymhwyso, gydag addasiadau, ddarpariaethau penodol yn Neddf Diogelwch Bwyd 1990 (1990 p.16) (*rheoliad 5*); ac

(ch) yn dirymu Rheoliadau Bwyd (Cyffaith Jeli) (Rheolaeth Frys) (Cymru) 2002 (O.S. 2002/1090 (Cy.115))(*rheoliad 6*).